# Cynllun gweithredu strategaeth gweithlu therapi galwedigaethol

## Cymru–Wales

2024–2027



Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol

# Cynllun gweithredu Strategaeth y Gweithlu

## Cymru–Wales

**Byddwn yn cyflwyno ein Strategaeth Gweithlu therapi galwedigaethol gyntaf erioed ar gyfer y DU gyfan, gan ddefnyddio cynlluniau gweithredu sy'n benodol i'r wlad.**

**Mae'r cynllun gweithredu hwn i Gymru yn manylu ar:**

- sefyllfa'r gweithlu therapi galwedigaethol (ThG)
- camau i drawsnewid a moderneiddio'r gweithlu therapi galwedigaethol
- enghreifftiau o fodelu gweithlu a all helpu i drefnu sgiliau a sicrhau bod lefelau staffio yn ddiogel.

Bydd cyflawni ein Strategaeth Gweithlu yn ymdrech tîm. Hoffem ddiolch i'r gwirfoddolwyr sy'n aelodau yn ein grŵp cynghori ar Strategaeth y Gweithlu yng Nghymru sydd wedi helpu i lunio'r cynllun gweithredu hwn.

Ynghyd â'r cynllun gweithredu hwn, cyfeiriwch at y Strategaeth Gweithlu ar ein gwefan lle byddwch hefyd yn dod o hyd i lyfryddiaeth, terminoleg ddefnyddiol a chwestiynau cyffredin: **rcot.co.uk/workforce-strategy**

# Sefyllfa'r gweithlu therapi galwedigaethol

## Sefyllfa'r gweithlu therapi galwedigaethol

Er mwyn rhoi ein Strategaeth Gweithlu ar waith yn llwyddiannus yng Nghymru, mae angen inni ddeall lle'r ydym ar hyn o bryd yn erbyn y galwadau cynyddol ar ein gweithlu therapi galwedigaethol yng Nghymru.

Mae **Polisïau yng Nghymru** wedi eiriol dros wasanaethau i esblygu yn unol ag anghenion y boblogaeth yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r ddadl dros fabwysiadu deallusrwydd artiffisial a datrysiadau gofal sydd wedi'u galluogi gan dechnoleg, hefyd wedi'i gwneud ar draws fframweithiau polisi ac ymarfer yng Nghymru.

**Cymru Iachach,** Roedd cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg (2018), yn galw am ddarparu mwy o wasanaethau y tu allan i'r ysbyty, yn nes at ble mae pobl yn byw a gan dimau aml-broffesiynol.

Er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn, mae angen i therapi galwedigaethol fod ar flaen y gad o ran helpu pobl i fyw'n llawn – gan ddarparu'r cymorth sydd ei angen arnynt i gynnal eu lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol.

Mae'r **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)** yn mandadu sefydliadau iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg statudol yng Nghymru er mwyn fabwysiadu golwg hirdymor ac i ystyried sut mae'r penderfyniadau a wnawn heddiw yn effeithio ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r **Cynllun Gweithredu Gweithlu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru (2023)** yn pwysleisio'r ddadl dros integreiddio gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, addysg a lles yn well. Galwodd ar gyflogwyr i werthuso eu modelau gweithlu presennol ac ystyried ail-leoli ein gweithlu ac ad-drefnu'r sgiliau amlbroffesiynol o fewn timau.

**Mae'r Cynllun Gweithredu Gweithlu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru (2023)** yn pwysleisio'r ddadl dros integreiddio gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, addysg a lles yn well.

Galwodd ar gyflogwyr i werthuso eu modelau gweithlu presennol ac ystyried ail-leoli ein gweithlu ac ad-drefnu'r sgiliau aml-broffesiynol o fewn timau.

Mae'n cyflwyno'r achos dros rôl y gweithlu therapi galwedigaethol wrth hwyluso integreiddio ar draws:

- gwasanaethau iechyd corfforol a meddyliol
- gwasanaethau gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd
- iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg.

You'll find workforce data for Wales within our 'State of the occupational therapy workforce' report at **rcot.co.uk/workforce-strategy**



## Gweithio gyda'r gweithlu therapi galwedigaethol yng Nghymru

Gan weithio gyda'r gweithlu therapi galwedigaethol yng Nghymru, rydym wedi nodi bod cam-aliniad strategol rhwng y polisi iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg presennol a realiti'r ddarpariaeth gwasanaethau.

Mae'r camaliniad hwn wedi herio ein twf a'n gallu i ddatblygu gwasanaethau yn unol ag angen demograffig ac wedi dod i'r wyneb y materion a ganlyn:

- mae cyllid ar gyfer arloesi a gwella gwasanaethau yn aml yn fyrdymor ac yn anghyson. Mae hyn yn cyfrannu at amrywiaeth yn ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i boblogaethau Cymru. Nid yw ychwaith yn gwneud y gorau o'r sgiliau, y wybodaeth a'r creadigrwydd sy'n helaeth o fewn gweithlu therapi galwedigaethol
- nid yw'r gweithlu therapi galwedigaethol yn gymwys i wneud cais am rai rolau arwain ac uwch reolwyr. Mae hyn yn rhwystro ein potensial a'n gallu i gefnogi cydweithio a newid systemau
- data demograffig anghyson sy'n gwanhau ymdrechion systemau i gynllunio'r gweithlu'n effeithiol
- dealltwriaeth gyfyngedig o werth therapi galwedigaethol a'i gyfraniad unigryw i heriau a chyfleoedd ar draws y system. Mae hyn yn parhau mynediad tameidiog a lleoliad y gweithlu therapi galwedigaethol o fewn systemau.



# Trawsnewid a moderneiddio'r gweithlu therapi galwedigaethol

## Ein gweledigaeth gweithlu

Ein gweledigaeth yw gweithlu therapi galwedigaethol ehangach – sydd mewn sefyllfa i gael yr effaith fwyaf posibl o ran gwella iechyd ac ansawdd bywyd pobl.

Erbyn 2035 bydd gennym weithlu therapi galwedigaethol sydd yn:

- **hyderus a medrus wrth hyrwyddo cynhwysiant** ac wrth eiriol dros gyfiawnder galwedigaethol, gan ganolbwyntio ar hawl pob person i gael dewis a chyfle i gymryd rhan mewn ystod amrywiol o weithgareddau a rolau
- **seiliedig yn bennaf o fewn cymunedau** gan weithio'n agos gyda phoblogaethau lleol i ddiwallu eu hanghenion iechyd a gofal a sicrhau bod gwasanaethau yn hygyrch i bawb
- **mewn sefyllfa i ganolbwyntio ar atal ac ymyriadau cynnar,** gan leihau'r angen am ymyriadau mewn argyfwng a dibyniaeth ar wasanaethau gofal
- **rhoi lle blaenllaw i alwedigaethau yn eu hymarfer,** grymuso pobl i wneud y galwedigaethau y maent yn eu gwerthfawrogi, rheoli eu hanghenion iechyd a gofal, a chyfrannu at gymdeithas.

## Paratoi ein gweithlu ar gyfer newid

Rydym yn cydnabod bod llawer i'w wneud i baratoi'r gweithlu therapi galwedigaethol yng Nghymru ar gyfer moderneiddio a thrawsnewid. Wedi'i arwain gan angen demograffig, polisi a chyfeiriad ymarfer, bydd y cynllun gweithredu tair blynedd hwn yn canolbwyntio ar uchelgeisiau allweddol ar gyfer y gweithlu therapi galwedigaethol yng Nghymru. Amlygodd Model Gofal Sylfaenol Cymru (PCMW, 2014) yr angen am ddulliau system gyfan o ddarparu gwasanaethau gofal iechyd sydd yn lleol, cynaliadwy a hygyrch. Drwy ganolbwyntio ar ofal seiliedig ar le, a ddarperir i bobl yn eu mannau preswyl arferol, a gwaith aml-broffesiynol, mae'r gweithlu therapi galwedigaethol yng Nghymru wedi bod yn arloeswyr wrth ddatblygu gwasanaethau i fodloni'r gofyniad hwn. Mae arnom angen mwy o dimau i fabwysiadu'r model hwn er mwyn ehangu ei gwmpas a maint y ddarpariaeth.

Mae data wedi awgrymu bod dros ddwy ran o dair o iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cael ei ddarparu mewn gwasanaethau cleifion mewnol (gofal eilaidd), tra bod traean yn cael ei ddarparu yn y gymuned **(GIG Cymru, 2021).** Ar ben hynny, er bod 90% o weithgarwch y GIG yn digwydd o fewn gofal sylfaenol a chymunedol, dim ond 6% o gyllideb y GIG y mae gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol yn ei dderbyn **(Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2022 – 2025)**



**Mae ein cynllun gweithredu yn hyrwyddo mabwysiadu'r fframwaith cyffredinol, wedi'i dargedu ac arbenigol o ddarparu gwasanaethau.**

Drwy wella cyfran y gwasanaethau ar draws y lefelau hyn, byddwn yn galluogi pobl i gael mynediad at y cymorth cywir ar yr amser iawn, yn y lle iawn ac yn cael ei ddarparu gan y gweithlu amlbroffesiynol cywir.

# Y modelu gweithlu sydd ei angen arnom

Gan weithio gyda'r gweithlu therapi galwedigaethol ac arweinwyr yng Nghymru, rydym wedi nodi sawl egwyddor modelu'r gweithlu a darparu gwasanaethau a fydd yn ein helpu i gyflawni ein nodau:

- cael mynediad at ddata a gwybodaeth sy'n adlewyrchu realiti gwasanaethau. Bydd hyn yn hwyluso cynlluniau gweithlu effeithiol a chynlluniau trawsnewid y gweithlu.
- mynediad teg i swyddi ar bob lefel gyrfa o'r pileri ymarfer.
- ymarferwyr therapi galwedigaethol gyda hunaniaeth broffesiynol gref ac ymdeimlad clir o'u gwerth unigryw a'u cyfraniad at systemau iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg.
- sylfaen gadarn o dystiolaeth ymchwil a byd go iawn ar gyfer rôl therapi galwedigaethol o fewn timau amlbroffesiynol. .
- gweithlu therapi galwedigaethol sy'n cofleidio technoleg yn eu gwaith ac sy'n barod yn ddigidol heddiw ac yfory.

Rydym yn mynd i'r afael â'r camalinio mewn polisi ac arfer, gan ysgogi'r diwygio gofal iechyd a'r trawsnewidiad gweithlu sydd ei angen yng Nghymru. Y cwestiwn rydym wedi ceisio ei ateb drwy ddatblygu'r cynllun gweithredu hwn yw – Beth fydd wasanaeth therapi galwedigaethol sydd yn gynhwysol a rhagorol yn edrych fel yn 2035 a sut rydym yn cyflawni hyn

**Mae'r tablau ar dudalennau 9–13 yn cyflwyno ein cynllun gweithredu ar gyfer cyflawni ein Strategaeth Gweithlu yng Nghymru.**

Mae gan bob blaenoriaeth gweithlu gamau gweithredu gyda mesurau ac amseru.

## Blaenoriaeth un y gweithlu: Optimeiddio therapi galwedigaethol

- Byddwn yn cefnogi ymarferwyr therapi galwedigaethol i wneud newidiadau, gan ddefnyddio eu sgiliau a'u gwybodaeth i arwain a chyd-ddylunio cynhyrchion, ymyriadau a gwasanaethau arloesol sy'n gwella bywydau a lles pobl.
- Byddwn yn hyrwyddo modelau darparu gwasanaeth arloesol sy'n gwella mynediad at therapi galwedigaethol ac yn sicrhau tegwch iechyd i bawb.

| Gweithred | Mesur | Pryd |
|---|---|---|
| Byddwn yn cefnogi gwreiddio'r Fframwaith Proffesiynol ar gyfer Ymarfer Clinigol Estynedig, Uwch ac Ymgynghorol yng Nghymru - AaGIC (GIG.cymru).Nod y fframwaith hwn yw cynyddu nifer yr ymarferwyr therapi galwedigaethol sy'n gweithio mewn rolau uwch ac estynedig mewn lleoliadau gofal sylfaenol, adsefydlu, a lleoliadau gofal i blant, pobl ifanc a theuluoedd.<br><br>Byddwn yn gweithio gydag aelodau i ddatblygu strategaeth gyfathrebu ar gyfer y gweithlu ThG ar draws Cymru i rannu gwybodaeth allweddol am y cyfleoedd datblygu sydd ar gael.<br><br>Byddwn yn gweithio gyda chyflogwyr i ddatblygu disgrifiadau swydd sy'n cwrdd â'r fframwaith ymarfer clinigol ac uwch, | Meddu ar ddealltwriaeth sylfaenol o faint a'r natur o ymarferwyr therapi galwedigaethol sy'n gweithio ar lefelau ymarfer gwell, uwch, ac ymgynghorwyr. Bydd hyn yn ein galluogi i fonitro twf yn erbyn.<br><br>Nifer y defnyddwyr sy'n lawr lwytho ac yn rhyngweithio â'r cyfathrebiadau cyd-ddatblygwyd ar ein tudalennau gwe. Rydym yn olrhain hyn trwy ddadansoddeg ein sianeli digidol.<br><br>Nifer y defnyddwyr sy'n lawrlwytho ac yn rhyngweithio â disgrifiadau swydd sydd ar gael ar ein sianeli digidol. Rydym yn olrhain hyn trwy ddadansoddeg o ein sianeli digidol. | 2024 i 2027 |
| Byddwn yn gweithio gyda rhwydwaith AHP Cymru i rannu gwybodaeth a hyrwyddo gwahanol fodelau ymarfer, gan herio ymarferwyr i feddwl a gweithio'n wahanol.<br><br>Byddwn yn gweithio gyda'n haelodau i ddefnyddio'r ganolfan arloesedd fel llwyfan digidol i feithrin gwybodaeth a hyder i ysgogi arloesedd a dangos effaith therapi galwedigaethol.<br><br>Byddwn yn gweithio gyda ORiENT i gefnogi ein haelodau i dyfu'r dystiolaeth ymchwilio ac byd-go-iawn ar gyfer eu hymarfer. | Nifer yr astudiaethau achos, teithiau gwella a straeon effaith a gasglwyd gan ein haelodau, rhanddeiliaid a phartneriaid.<br><br>Crynodebau chwarterol o dueddiadau tystiolaeth a bylchau o deithiau gwella.<br><br>Nifer y teithiau gwella o'r ganolfan Arloesi a rennir â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), GIG Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfarwyddwyr Addysg y Cyngor Therapi Galwedigaethol. | 2024 i 2027 |
| Byddwn yn gweithio gyda darparwyr addysg a gwybodeg Cymru i ddatblygu modiwlau addysg a hyfforddiant sy'n grymuso'r gweithlu therapi galwedigaethol i ddefnyddio data ar gyfer cynllunio gweithlu effeithiol, gwella gwasanaethau a thrawsnewid y gweithlu. | Nifer y defnyddwyr sy'n llwytho i lawr ac yn cyrchu adnoddau ar ein llwyfannau digidol a gynlluniwyd ar gyfer gwerthuso'r effaith economaidd, cymdeithasol a phrofiadol o therapi galwedigaethol. Rydym yn olrhain hyn trwy ddadansoddeg o ein sianeli digidol. | 2024 i 2027 |

| | | |
|---|---|---|
| Byddwn yn casglu ac yn rhannu astudiaethau achos ar lefel darparwr, sy'n dangos gwerth therapi galwedigaethol o fewn llwybrau a arweinir-gan-anghenion yn hytrach na llwybrau sy'n benodol i gyflwr. Er enghraifft, gwerth therapi galwedigaethol yn daith rhywun o ofal acíwt i gymorth cymunedol, gan gynnwys ymyriadau gan awdurdodau lleol a thimau tai. | Nifer y teithiau gwella a rennir gyda rhwydweithiau ymarfer a proffesiynol, gan gynnwys, y rhwydwaith Proffesiynau Perthynol i Iechyd, Fforwm Cynghori ar Therapi Galwedigaethol a fforymau arweinyddiaeth yng Nghymru.<br><br>Nifer y teithiau gwella mewn digwyddiadau cenedlaethol, gan gynnwys y proffesiynau perthynol i iechyd yng Nghymru a Chynhadledd Flynyddol RCOT.<br><br>Nifer yr astudiaethau achos, teithiau gwella a straeon effaith a ddyfynnwyd mewn cyhoeddiadau gan randdeiliaid a phartneriaid yng Nghymru. | |
| Byddwn yn dylanwadu ar gyflogwyr Cymru i fabwysiadu fframwaith o ddarpariaeth gwasanaeth sydd yn cyffredinol, wedi'i thargedu ac yn arbenigol, gyda dosbarthiad cymesur ar draws y lefelau hyn i alluogi pobl i gael mynediad at y cymorth cywir ar yr amser iawn, yn y lle iawn ac wedi'i ddarparu gan y gweithlu cywir.<br><br>Byddwn yn gweithio gydag arweinwyr strategol AHP yng Nghymru i nodi ac ehangu mentrau trawsnewidiol gweithlu a gwasanaethau rhagorol. | Nifer y cyfarfodydd gyda byrddau iechyd, cynghorau lleol a byrddau partneriaeth rhanbarthol.<br><br>Nifer y cyflwyniadau taith wella gan gyflogwyr sydd wedi mabwysiadu'r fframwaith sydd yn gyffredinol, sydd wedi'i dargedu ac sydd yn arbenigol.<br><br>Nifer y cyflwyniadau i borth arweinyddiaeth AaGIC, Gwella. | 2024 i 2027 |
| Byddwn yn cefnogi'r gweithlu therapi galwedigaethol i harneisio'r technolegau cynorthwyol a'r asedau gofal iechyd digidol sydd ar gael yn lleol, er mwyn helpu pobl i reoli eu hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol eu hunain.<br><br>Byddwn yn gweithio gyda'r gweithlu therapi galwedigaethol yng Nghymru i nodi ac archwilio mewn i gyfleoedd ar gyfer AI a thechnolegau digidol wrth ddarparu gwasanaethau adsefydlu, gofal sylfaenol a gwasanaethau phlant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae hyn yn cynnwys nodi mesurau canlyniadau ar gyfer ein rôl yn y maes hwn.<br><br>Byddwn yn gweithio gyda darparwyr tai i ddylunio a darparu tai fforddiadwy ar gyfer poblogaethau Cymru yn unol â saith nod y Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)<br><br>Byddwn yn casglu ac yn rhannu enghreifftiau o ymarferwyr therapi galwedigaethol sy'n ymwneud â dylunio stoc tai newydd ac tai sydd wedi'u hailbwrpasu. | Nifer y defnyddwyr sy'n cyrchu ein sesiynau briffio ar dechnolegau cynorthwyol, gofal iechyd digidol a deallusrwydd artiffisial. Rydym yn olrhain hyn trwy ddadansoddeg o ein sianeli digidol.<br><br>Nifer yr ymarferwyr therapi galwedigaethol a gyflogir mewn adsefydlu, gofal sylfaenol a gwasanaethau plant, pobl ifanc a theuluoedd ac sy'n defnyddio AI a datrysiadau gofal iechyd digidol yn eu hymarfer. Rydym yn mesur hyn drwy ein harolwg gweithlu tair blynedd ac ein adolygiad o AI.<br><br>Cael mesur canlyniad sy'n cael ei ddefnyddio i gyfleu gwerth therapi galwedigaethol yn y gofod AI a gofal iechyd digidol.<br><br>Nifer yr enghreifftiau o sut yr oedd therapi galwedigaethol yn rhan o ddylunio stoc tai newydd ac ail-bwrpasol. | 2024 i 2027 |

## Blaenoriaeth gweithlu dau: Dangos gwerth ac effaith

- Byddwn yn adeiladu ein tystiolaeth byd go iawn a thystiolaeth ymchwil ar gyfer therapi galwedigaethol i gyfiawnhau buddsoddiad yn y gweithlu therapi galwedigaethol trwy feintioli'r effaith.
- Byddwn yn gweithio gyda'n harweinwyr i gyflwyno'r achos dros sut a ble i ddefnyddio ein harbenigedd i ychwanegu'r gwerth mwyaf i bobl a'u teuluoedd, y system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach ac i osgoi prinder critigol o fewn y gweithlu therapi galwedigaethol.

| Gweithred | Mesur | Pryd |
|---|---|---|
| Byddwn yn cefnogi'r gweithlu therapi galwedigaethol yng Nghymru i foderneiddio ei ymarfer yn unol â ysgogwyr polisi a blaenoriaethau.<br><br>Byddwn yn grymuso'r gweithlu therapi galwedigaethol yng Nghymru i ddatblygu dadleuon dros fuddsoddi yn y gwasanaethau y maent yn eu cyflogi ganddynt.<br><br>Byddwn yn gweithio gyda chyflogwyr i ledaenu'r broses o fabwysiadu ein hofferyn archwilio ansawdd ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru. | Nifer y defnyddwyr sy'n ymgysylltu ag adnoddau gan aelodau, partneriaid a rhanddeiliaid.<br><br>Nifer y gwasanaethau sy'n adrodd am gam-aliniad rhwng cyfeiriad polisi a realiti cyflenwi. Byddwn yn olrhain hyn drwy ein harolwg gweithlu tair blynedd.<br><br>Nifer yr aelodau yng Nghymru sy'n defnyddio templedi ac adnoddau o'n hwb arloesedd digidol a gynlluniwyd i adeiladu achosion dros newid. Byddwn yn olrhain hyn trwy ddadansoddeg o ein sianeli digidol.<br><br>Nifer a themâu'r achosion dros newid mewn datblygiad ar y canolbwynt arloesedd digidol.<br><br>Nifer yr achosion a gyflwynwyd yn ein clinigau syniadau a'u mabwysiadu gan systemau.<br><br>Nifer yr enghreifftiau a gynhwyswyd mewn adroddiadau cenedlaethol a rhanbarthol gan ein haelodau, partneriaid a rhanddeiliaid.<br><br>Nifer yr argymhellion a fabwysiadwyd o deithiau gwella gan ein partneriaid a rhanddeiliaid.<br><br>Nifer y rhanddeiliaid a phartneriaid sy'n mabwysiadu ac yn lledaenu enghreifftiau ac argymhellion o gyflwyniadau taith wella i'n canolfan Arloesi.<br><br>Nifer o argymhellion taith wella sydd wedi arwain at fuddsoddiad ariannol fel yr adroddwyd gan ein haelodau.<br><br>Nifer y cyflogwyr sy'n defnyddio'r offeryn archwilio ansawdd ar gyfer gwasanaethau plant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru. | 2024 i 2027 |

| | | |
|---|---|---|
| Byddwn yn cefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd ar y Model Gofal Sylfaenol i Gymru.Bydd hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gweithlu aml-broffesiynol sy'n gweithio o fewn ac ar draws lleoliadau gofal sylfaenol a chymunedol. | Nifer yr ymgyrchoedd cenedlaethol a gefnogwyd i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Fodel Gofal Sylfaenol Cymru.<br><br>Nifer y cyfarfodydd dylanwadol a fynychwyd i ddylanwadu ar gyfeiriad ac effaith ymgyrchoedd cenedlaethol.<br><br>Nifer o straeon o ein haelodau yn hyrwyddo gwerth therapi galwedigaethol gyda'r cyhoedd. Bydd y rhain yn cael eu casglu trwy sianeli digidol pwrpasol a grëir gan gynnwys y rhai ar gyfer y Wythnos Therapi Galwedigaethol flynyddol. | 2024 i 2027 |
| Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid ac arweinwyr i ddatblygu dull safonol o ddangos gwerth ac effaith therapi galwedigaethol. Bydd hyn yn ein helpu i ddadlau dros fuddsoddiad a fydd yn ein galluogi i dyfu o fewn gofal sylfaenol, adsefydlu cymunedol a lleoliadau plant, pobl ifanc a theuluoedd.<br><br>Byddwn yn cwmpasu ac yn deall rôl ymarferwyr therapi galwedigaethol sy'n defnyddio'r nodyn ffitrwydd yng Nghymru.<br><br>Byddwn yn ymhelaethu ar effaith therapi galwedigaethol o ran helpu pobl i gael neu adennill gwaith da pan fydd therapyddion galwedigaethol yn cael eu cyflogi mewn gwasanaethau iechyd galwedigaethol, adsefydlu galwedigaethol a gofal sylfaenol.<br><br>Byddwn yn amlygu sut rydym yn lleihau profiad pobl o anghydraddoldebau iechyd trwy cadw nhw mewn rolau bywyd cynhyrchiol. | Nifer y gweithdai gyda rhanddeiliaid ac arweinwyr er mwyn archwilio cyfleoedd ar gyfer dull safonol o ddangos ein gwerth a chyfleu ein heffaith.<br><br>Y cyd- destunau y byddwn yn eu blaenoriaethu yw gofal sylfaenol, adsefydlu cymunedol a lleoliadau plant, pobl ifanc a theuluoedd.<br><br>Nifer y defnyddwyr sy'n cyrchu data sylfaenol a mewnwelediadau ar rôl o ThG mewn perthynas â nodiadau ffitrwydd yng Nghymru.<br><br>Nifer y teithiau gwella gan therapyddion galwedigaethol sy'n gweithio mewn lleoliadau iechyd galwedigaethol, adsefydlu galwedigaethol a gofal sylfaenol a gyflwynwyd i'n hwb Arloesedd. | 2024 i 2027 |
| Byddwn yn cynnal sesiynau trwy ein digwyddiadau a'n rhwydweithiau, ar thema o gweithlu therapi galwedigaethol i rannu dysgu, dathlu llwyddiannau ac ysgogi trafodaeth bryfoclyd ynghylch cyfleoedd a heriau. | Nifer y digwyddiadau blynyddol a gynhelir ar thema gweithlu therapi galwedigaethol. Mae hyn yn cynnwys ein gweithdai diwygio'r gweithlu sy'n adeiladu ar ein huwchgynadleddau gweithlu 2021/22.<br><br>Nifer y poster a chyflwynydd therapi galwedigaethol cafodd ei chyflwyno i'r gynhadledd genedlaethol AHP yng Nghymru. | 2024 i 2027 |

## Blaenoriaeth tri gweithlu: Cadw a datblygu gyrfa



- Byddwn yn cefnogi ac yn hyrwyddo datblygiad yr holl ymarferwyr therapi galwedigaethol, yn enwedig y rhai o gymunedau sydd wedi'u hymyleiddio a'u tangynrychioli yn hanesyddol, i fod lle y dymunant fod ar gyfer bob cam o'u gyrfa.
- Byddwn yn meithrin gallu, hyder a gallu ein proffesiwn i ymgorffori arweinyddiaeth, dysgu, ymchwil ac arloesi mewn ymarfer.

| Gweithred | Mesur | Pryd |
|---|---|---|
| Byddwn yn gweithio gyda chyflogwyr a darparwyr addysg i gynyddu'r ystod o gyfleoedd dysgu seiliedig ar ymarfer a ddarperir i dyfu gweithlu therapi galwedigaethol modern.<br><br>Byddwn yn gweithio gyda chyflogwyr er mwyn annog yr ymgorfforiad o ddysgu seiliedig-ar-ymarfer o fewn prosesau a gweithdrefnau arfarnu perfformiad ac adolygiad datblygu.<br><br>Byddwn yn cefnogi ac yn cymryd rhan mewn gwerthusiadau cenedlaethol o ddarpariaeth dysgu seiliedig-ar-ymarfer. | Nifer y cyfarfodydd gyda chyflogwyr a darparwyr addysg i drafod yr ystod o gyfleoedd dysgu seiliedig ar ymarfer a gynigir.<br><br>Nifer y cyfarfodydd gyda chyflogwyr i drafod yr ymgorfforiad o ddysgu seiliedig-ar-ymarfer o fewn prosesau a gweithdrefnau arfarnu perfformiad ac adolygiad datblygu.<br><br>Nifer y gwerthusiadau cenedlaethol o ddarpariaeth dysgu seiliedig-ar-ymarfer y buom yn cymryd rhan ynddynt. | 2024 i 2027 |
| Byddwn yn cydweithio â chyflogwyr a rhanddeiliaid i ddatblygu egwyddorion cenedlaethol ar gyfer preceptoriaeth a chyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yng Nghymru.<br><br>Byddwn yn cefnogi gweithrediad y 2023 Strategaeth datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ar gyfer Gweithlu gofal iechyd GIG Cymru. | Nifer y gweithdai a gynhaliwyd gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid i ddatblygu egwyddorion cenedlaethol ar gyfer preceptoriaeth a chyfleoedd DPP yng Nghymru.<br><br>Nifer y cyflwyniadau therapi galwedigaethol i ymgynghoriadau am DPP a phreceptoriaethau.<br><br>Nifer yr aelodau yng Nghymru sy'n ymgysylltu â strategaeth DPP 2023 ar gyfer gweithlu gofal iechyd GIG Cymru. | 2024 i 2027 |

| | | |
|---|---|---|
| Byddwn yn gweithio gyda darparwyr addysg ac AaGIC i lunio, moderneiddio a gwella safonau hyfforddi gan gynnwys ar gyfer y gweithlu addysgwyr yng Nghymru.<br><br>Byddwn yn gweithio gyda chyflogwyr, darparwyr addysg ac AaGIC i alinio rhaglenni addysg therapi galwedigaethol ag anghenion gwasanaeth er mwyn gynnal gweithlu graddedig sy'n barod ar gyfer cyflogaeth heddiw ac yfory.<br><br>Byddwn yn gweithio gyda darparwyr addysg i ddeall y sefyllfa bresennol ac anghenion ein gweithlu addysgwyr academaidd. Bydd hyn yn ein helpu i adeiladu'r achos dros ehangu capasiti a gallu addysgwyr i gyflwyno rhaglenni addysg therapi galwedigaethol cyn cofrestru ac ôl-gofrestru. | Nifer yr addysgwyr academaidd sy'n ymateb i'n cwmpas o'u hanghenion a nifer ac ansawdd y themâu o'u hymatebion.<br><br>Nifer y gweithdai gyda chyflogwyr, darparwyr addysg ac AaGIC i foderneiddio, siapio, gwella ac alinio darpariaeth addysg ag anghenion gwasanaeth. | 2024 i 2027 |
| Byddwn yn diweddaru ein canllawiau goruchwylio gydag offer gweithredu er mwyn feithrin hyder a gallu'r gweithlu therapi galwedigaethol i gymryd rhan mewn goruchwyliaeth ac elwa ohoni.<br><br>Byddwn yn gweithio gyda'n cydweithwyr amlbroffesiynol mewn lleoliadau gofal sylfaenol i'w helpu er mwyn ddarparu goruchwyliaeth sydd yn bersonol ac effeithiol i ymarferwyr therapi galwedigaethol. | Nifer a demograffeg y defnyddwyr sy'n ymgysylltu â'n canllawiau goruchwylio wedi'u diweddaru ar ein sianeli digidol. Rydym yn olrhain y rhain gan ddefnyddio dadansoddeg o ein sianeli digidol.<br><br>Nifer y cyfarfodydd gyda chyflogwyr yng Nghymru i ledaenu'r broses o fabwysiadu ein canllawiau goruchwylio a'n hoffer gweithredu.<br><br>Nifer y gweithdai gyda chydweithwyr gofal sylfaenol amlbroffesiynol er mwyn gynyddu capasiti a gallu i oruchwylio ymarferwyr therapi galwedigaethol. Nifer y cydweithwyr amlbroffesiynol sy'n mynychu'r gweithdai hyn. | 2024 i 2027 |
| Byddwn yn cefnogi ein haelodau a chyflogwyr i ddefnyddio'r Fframwaith Datblygu Gyrfa (CDF) i feithrin ymarfer ar bob lefel yng Nghymru.<br><br>Byddwn yn gweithio gyda chyflogwyr i werthuso sut y defnyddir y CDF i hwyluso symudedd gyrfa ar draws sectorau statudol, preifat ac annibynnol, elusennol, gwirfoddol a menter gymdeithasol. | Nifer y gweithdai gydag aelodau a chyflogwyr i ledaenu mabwysiadu'r CDF.<br><br>Nifer o straeon gan aelodau sydd wedi elwa o gymhwyso'r CDF yn eu gyrfa. Byddwn hefyd yn olrhain dosbarthiad straeon ar draws lefelau gyrfa a sectorau cyflogaeth. | |

## Blaenoriaeth pedwar y gweithlu: Cynllunio gweithlu effeithiol



- Byddwn yn grymuso'r gweithlu ThG i gyfrannu, crychu a defnyddio'r data a'r wybodaeth cynllunio gweithlu sydd ar gael iddynt.
- Byddwn yn grymuso'r gweithlu therapi galwedigaethol i ddefnyddio'r data a'r wybodaeth i wneud penderfyniadau gwybodus am eu safle o fewn y system iechyd a gofal cymdeithasol.

| Gweithred | Mesur | Pryd |
|---|---|---|
| Byddwn yn gweithio gyda chyflogwyr, GIG Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru i safoni sut mae'r gweithlu therapi galwedigaethol a'u meysydd ymarfer yn cael eu codio ar ddangosfyrddau data'r gweithlu.<br><br>Byddwn yn sefydlu trefniadau rhannu gyda pherchnogion data gweithlu yng Nghymru gan gynnwys darparwyr preifat ac annibynnol.<br><br>Byddwn yn rhannu data gweithlu, cudd-wybodaeth ac offer gyda'n haelodau a rhanddeiliaid gan ddefnyddio ein sianeli digidol.<br><br>Byddwn yn cynhyrchu dealltwriaeth sylfaenol o ddata'r gweithlu yng Nghymru gan ddefnyddio ceisiadau rhyddid gwybodaeth. Byddwn yn cyhoeddi'r llinell sylfaen hon i'n harweinwyr a'n haelodau yng Nghymru.<br><br>Byddwn yn casglu ac yn defnyddio data trwy ein harolwg gweithlu, cronfa ddata aelodaeth a mapiau gweithlu er mwyn ddeall y maint, dosbarthiad, lefelau gyrfa a chymysgedd sgiliau'r gweithlu therapi galwedigaethol.<br><br>Byddwn yn gweithio gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid i nodi a hyrwyddo adnoddau cynllunio gweithlu effeithiol i'n haelodau.<br><br>Byddwn yn gweithio gydag ein rhanddeiliaid Cymreig i gyfeirio ein haelodau a'n partneriaid at adnoddau sy'n cefnogi'r mynediad, y defnydd a'r cymhwysiad o ddata gweithlu. | Nifer ac ansawdd yr ymgysylltu â data gweithlu ac adnoddau cynllunio ar ein sianeli digidol. Byddwn yn olrhain y rhain gan ddefnyddio dadansoddeg ein sianeli digidol.<br><br>Nifer y defnyddwyr sy'n lawrlwytho ac yn cyrchu ein tudalen we ar ddata gweithlu, cudd-wybodaeth, adnoddau ac offer. Rydym yn olrhain hyn trwy ddadansoddeg ein sianeli digidol.<br><br>Nifer y defnyddwyr sy'n lawrlwytho ac yn cyrchu ein tudalen we Cyflwr y Gweithlu OT yng Nghymru. Rydym yn olrhain hyn trwy ddadansoddeg ein sianeli digidol. | 2024 i 2027 |

| | | |
|---|---|---|
| Byddwn yn casglu ac yn rhannu enghreifftiau ar ein sianeli digidol o fodelau gweithlu a chyfluniadau sgiliau sydd wedi gwella canlyniadau i bobl, timau a systemau.<br><br>Byddwn yn gweithio gyda chyflogwyr i ddarparu hyfforddiant ar gynllunio swyddi, gwerthuso swyddi ac offer optimeiddio cynhyrchiant gweithlu perthnasol a chyfredol eraill. | Nifer ac ansawdd yr ymgysylltu â'r enghreifftiau a rennir ar ein sianeli digidol o fodelau gweithlu a ffurfweddau sgiliau sydd wedi gwella canlyniadau i bobl, timau a systemau. Byddwn yn olrhain hyn gan ddefnyddio dadansoddeg ein sianeli digidol.<br><br>Nifer y gweithdai gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid i gytuno ar fethodoleg cynllunio gweithlu y gellir ei mabwysiadu ar bob lefel o'n systemau.<br><br>Nifer y gweithdai hyfforddi gyda chyflogwyr ac aelodau ar gynllunio swyddi, gwerthuso swyddi ac offer eraill sydd yn berthnasol a chyfredol ac sydd gallu optimeiddio cynhyrchiant y gweithlu. | 2024 i 2027 |

Coleg Brenhinol
**Therapyddion Galwedigaethol**

Ni yw RCOT, Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol. Rydym wedi hyrwyddo'r proffesiwn a'r bobl y tu ôl iddo ers dros 90 mlynedd; a heddiw, rydym yn ffynnu gyda dros 36,000 o aelodau.

Ddoe a nawr, rydyn ni yma i helpu i gyflawni datblygiadau sy'n newid bywydau ein haelodau, y bobl maen nhw'n eu cefnogi a chymdeithas yn gyffredinol.



**rcot.co.uk/workforce-strategy**

© 2024 Royal College of Occupational Therapists. A registered charity in England and Wales (No. 275119) and in Scotland (No. SCO39573) and a company registered in England (No. 1347374)

Version 1/June 2024